Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
01/2025
Dyddiad cyhoeddi:
14/01/2025

# Adroddiad cyfweliadau cwmpasu

## Cysyniadu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Adroddiad Tystiolaeth Ategol 4 ar gyfer y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-996-1

Awduron:  Nia Bryer a Heledd Bebb

Bryer, N. a Bebb, H.(2024) *Adroddiad Cyfweliadau Cwmpasu: Cysyniadu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 01/2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Dyma'r Adroddiad Cyfweliadau Cwmpasu sy'n un o bedair dogfen sy'n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn cyfosod canfyddiadau'r adroddiad hwn, a thri arall sy'n darparu tystiolaeth ategol – y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023): yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024); a'r adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp (Wallace a Wallace, 2024).

**Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**

Tîm yr astudiaeth:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Heledd Bebb, Nia Bryer, Deborah Fitzsimmons, Tony Garthwaite, Mary Lynch, Llinos Haf Spencer, Sion Tetlow, Carolyn Wallace, a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Brunel Llundain; Prifysgol Abertawe, Ymchwil OB3, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon.

Prif arweinydd yr astudiaeth:

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@decymru.ac.uk

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ:
ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Mark Llewellyn – Prifysgol De Cymru

## Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 4
    - Strwythur yr adroddiad hwn ..... 7
2. Dyluniad a phensaernïaeth y RIF ..... 8
    - Cyflwyniad ..... 8
    - Cryfderau ac anawsterau’r dyluniad ..... 8
    - Addasrwydd polisi ..... 11
    - Dyraniad i'r sector gwerth cymdeithasol ..... 13
    - Cronfeydd cenedlaethol wedi'u clustnodi ..... 14
3. Modelau Gofal ..... 14
    - Cyflwyniad ..... 14
    - Llywio a gyrru Cynlluniau Strategol rhanbarthol ..... 16
    - Galluogwyr allweddol ..... 19
    - Grwpiau Poblogaeth â Blaenoriaeth ..... 20
4. Datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol ..... 21
    - Cyflwyniad ..... 21
    - Cydweddiad gydag amcanion ehangach y RIF ..... 22
5. Gweithrediad hyd yma ..... 26
    - Newidiadau i ddulliau gweithredu rhanbarthol ers cyflwyno Cynlluniau Strategol ..... 26
    - Trefniadau seilwaith ac adnoddau RIF rhanbarthol ..... 26
    - Y cynnydd ar draws rhanbarthau ..... 27
6. Ymgysylltu â’r Cymunedau Ymarfer ..... 28
    - Diben y Cymunedau Ymarfer ..... 28
    - Strwythur ac aelodaeth ..... 29
7. Casgliadau ..... 31

Atodiad A: Offerynnau ymchwil ..... 33
- Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Arweinwyr/Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ..... 33
- Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Unigolion Allweddol yn Llywodraeth Cymru ..... 37
- Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Unigolion Allweddol a Noddwyr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer y RIF ..... 41

## Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth o dan arweiniad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Prifysgol De Cymru i werthuso'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn tri cham – cysyniadu, gweithredu a gwireddu. Nod cam cyntaf y gwerthusiad (cysyniadu) yw ystyried i ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy'r RIF wedi'u mynegi a'u deall.

Mae hwn yn un o bedwar adroddiad sy'n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu'r astudiaeth (Llewellyn a Verity, 2024)[2] a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r rhain. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau cwmpasu manwl gyda 24 o randdeiliaid allweddol a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023.

Mae canfyddiadau allweddol y cyfweliadau cwmpasu fel a ganlyn:

- mae'r RIF yn rhaglen uchelgeisiol sydd wedi mabwysiadu llawer o wersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol fel y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)
- mae gan y RIF lawer o elfennau dylunio cadarnhaol gan gynnwys cyfnod ariannu hirdymor, mae'n darparu cyllid drwy un gronfa fuddsoddi i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn mabwysiadu model ariannu taprog
- nid yw'r RIF yn gyfan gwbl ragnodol nac yn rhoi hyblygrwydd llwyr i'r rhai a ariennir. Mae'n gorwedd yn y tir canol sy'n golygu bod cyfranwyr rhanbarthol yn gweld canllawiau'r RIF fel rhai amwys ac agored i'w dehongli
- mae'r RIF yn gweithredu mewn cyd-destun polisi cymhleth iawn sy'n esblygu'n sylweddol. Nid yw'n glir pa rôl a ddisgwylir gan y RIF o fewn polisïau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg na beth fydd eu goblygiadau ar weithgareddau a ariennir
- cyfran fach iawn yw'r RIF o'r tirlun ariannu cyffredinol ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn aml cyfrannwr bach yw'r RIF at wasanaethau a phrosiectau mawr. Mae hyn yn effeithio ar lefel y flaenoriaeth a roddir i'r buddsoddiad ac yn ei gwneud yn anodd asesu'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud

[2] Llewellyn, M. a Verity, F. (2024) O theori i ymarfer: cysyniadu'r egwyddorion arweiniol o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 01/2025.

- mae’r amgylchedd cyllidol heriol y mae’r RIF yn cael ei darparu oddi mewn iddo yn bygwth tanseilio rhai o’i hegwyddorion dylunio sylfaenol, yn enwedig o ran cymhwyso ariannu taprog
- mae ei gweithrediad yn profi'n heriol, yn anad dim oherwydd bod y rhaglen yn gofyn am drawsnewid sylweddol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs). Mae’r RIF yn dilyn ymlaen o raglenni ariannu blaenorol fel y Gronfa Trawsnewid a’r Gronfa Gofal Integredig, felly prosiectau etifeddol a gwasanaethau statudol yw’r rhan fwyaf o’r ddarpariaeth a ariennir ganddi
- mae diffyg eglurder ynghylch diben Modelau Gofal, a’u rhesymeg sylfaenol. Ar hyn o bryd mae cyfranwyr rhanbarthol yn gweld Modelau Gofal fel rhywbeth sy’n atal gweithredu’r RIF wrth iddynt dorri ar draws ffordd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o weithio, sy’n canolbwyntio ar garfanau poblogaeth yn hytrach na modelau darparu gwasanaethau
- mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i raddau gwahanol ac yn amrywio o ran llwyddiant, wedi ceisio ôl-ffitio’u blaenoriaethau a’u prosiectau rhanbarthol i’r Modelau Gofal, ond mae Modelau Gofal wedi cael eu defnyddio’n bennaf at ddibenion gweinyddu ac adrodd yn hytrach nag i siapio a llywio’r ddarpariaeth.
- mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi defnyddio blwyddyn gyntaf y RIF i brofi aliniad prosiectau a ariennir gydag amcanion ehangach y RIF, er nad oes llawer o dystiolaeth bod prosiectau sydd heb eu halinio’n cael eu tynnu’n ôl
- bernir bod y pum galluogwr allweddol a’r pum grŵp poblogaeth â blaenoriaeth yn briodol. Mae’r galluogwyr yn gonglfeini ar gyfer darparu gwasanaethau, ond mae’n heriol i’r rhanbarthau ddangos sut y maent yn mabwysiadu’r galluogwyr allweddol i gyflawni amcanion y RIF
- mae'r Cymunedau Ymarfer yn rhannu dysgu ac yn gwneud cysylltiadau pwysig â rhaglenni cenedlaethol perthnasol. Mae diffyg cynrychiolaeth o ran prosiectau ac arweinwyr rhanbarthol y RIF ac nid yw'n glir a ddylai Cymunedau Ymarfer gyflawni eu rôl o ran cyfrannu at ddatblygu dulliau gweithredu cenedlaethol a Modelau Gofal y cytunwyd arnynt, neu sut y gallent wneud hynny.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth o dan arweiniad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Prifysgol De Cymru i werthuso'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Bwriad y gwerthusiad yw asesu nodau, gweithrediad ac effaith y RIF. Nod yr adolygiad yw asesu i ba raddau y mae chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig wedi'u datblygu, wedi'u gwreiddio ac wedi'u 'datblygu' yn llwyddiannus, gyda'u cydrannau craidd wedi'u nodi'n glir, ac i ba raddau y mae canlyniadau lefel uchel y RIF sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u cyflawni.

1.2 Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn tri cham – cysyniadu, gweithredu a gwireddu. Nod cam cyntaf y gwerthusiad (cysyniadu) yw ystyried i ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy'r RIF wedi'u mynegi a'u deall.

1.3 Mae hwn yn un o bedwar adroddiad sy'n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu'r astudiaeth (Llewellyn a Verity, 2024).[3] Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn dwyn ynghyd ac yn cyfosod canfyddiadau o'r adroddiad hwn a thri arall: y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023) sy'n amlinellu trosolwg o'r gwerthoedd, y syniadau a'r dyheadau ar gyfer newid a nodir yn y RIF, gan gynnwys dyluniad y rhaglen a'r cyd-destun ehangach y mae'n cael ei weithredu ynddo;[4] yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024) sy'n nodi elfennau o raglenni gofal integredig llwyddiannus a'r rhwystrau i'w llwyddiant;[5] a'r adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp (Wallace a Wallace, 2024) sy'n archwilio'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF.[6]

1.4 Mae'r Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024) yn mynd i'r afael â'r cyntaf o'r cwestiynau canolog yn ein hastudiaeth ('I ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy wedi'u mynegi fel rhan o'r RIF?'), ac wrth ateb y cwestiwn mae'n rhoi synthesis o'r canfyddiadau o ddata gwerthuso a gasglwyd yn ystod Blwyddyn 1 gwerthusiad y RIF. Mae'r Adroddiad Cysyniadu felly'n 'drosolwg'

---

[3] Llewellyn, M. a Verity, F. (2024) O theori i ymarfer: cysyniadu'r egwyddorion arweiniol o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif xx/2024.

[4] Verity, F a Llewellyn, M (2023) Fframwaith ar gyfer Newid: Cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dogfen Tystiolaeth Ategol 1.

[5] Tetlow, S., Wallace, C., Wallace, S., Llewellyn, M. a Verity F. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Adolygiad Llenyddiaeth Realistig Cyflym. Dogfen Tystiolaeth Ategol 2.

[6] Wallace, C. a Wallace, S. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp – Cysyniadu. Dogfen Tystiolaeth Ategol 3.

o’r dystiolaeth a gasglwyd yma ac mewn mannau eraill, ac mae hefyd yn rhoi disgrifiad o’r cyd-destun newidiol a chyfnewidiol sydd wedi effeithio ar y RIF.

1.5 Nid yw’n fwriad gennym yn yr adroddiad hwn ailadrodd y cyd-destun ehangach y mae’r RIF yn gweithredu ynddo na nodi nodau ac amcanion y cynllun, er y gwneir cyfeiriadau fel y bo’n briodol at yr adroddiad perthnasol fyddai’n darparu hyn i’r darllenydd.

1.6 Mae ymchwil ansoddol ar ffurf cyfweliadau cwmpasu manwl gyda rhanddeiliaid allweddol yn ffurfio un agwedd ar werthusiad y cam cysyniadu ac mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r trafodaethau hynny. Arweiniwyd y cyfweliadau gan gwmni Ymchwil OB3, a chynhaliwyd cyfweliadau gyda chyfanswm o 24 o gyfranwyr rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023, fel y nodir yn Nhabl 1.1. Cynhaliwyd y cyfweliadau drwy Microsoft Teams a’u recordio (gyda chaniatâd), ac ar gyfartaledd roeddent yn para awr. Paratowyd nodyn o'r cyfweliad gan ymchwilwyr, gan dynnu ar y recordiad Microsoft Teams fel y bo'n briodol.

**Tabl 1.1: Proffil cyfranwyr yr ymchwil ansoddol**

| Math o gyfrannwr | Nifer |
|---|---|
| Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | 7 |
| Aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | 5 |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru | 5 |
| Noddwyr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer | 5 |
| Hwyluswyr deiliaid contract Cymunedau Ymarfer | 2 |
| **Cyfanswm** | **24** |

1.7 Rydym yn trafod y data a gasglwyd yn y ffordd y’i cyflwynwyd i ni drwy’r cyfweliadau cwmpasu hyn. Mae hyn weithiau’n golygu defnyddio terminoleg hen ffasiwn a fabwysiadwyd gan gyfweleion. Er enghraifft, cyfeiriodd rhai cyfweleion at y term ‘pileri’ gan mai dyma oedd y term llafar anffurfiol a ddefnyddiwyd cyn mabwysiadu’r term ‘Modelau Gofal’.

1.8 Roedd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil ansoddol yn cynnwys:

- datblygu tri chanllaw trafod i lywio ein cyfweliadau ag (a) arweinwyr ac aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB), (b) swyddogion Llywodraeth Cymru, a (c) Noddwyr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer a deiliaid contract y Cymunedau Ymarfer (a nodir yn Atodiad A)
- paratoi a dosbarthu taflen wybodaeth, ffurflen gydsyniad a hysbysiad preifatrwydd i'r cyfranwyr
- gofyn am ddata cyswllt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o saith arweinydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddylunio a datblygu'r RIF, holl Noddwyr Cenedlaethol y Cymunedau Ymarfer a deiliaid contract y Cymunedau Ymarfer
- cysylltu â phob un o saith arweinydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sicrhau cyfweliadau gyda chwech ohonynt. Mewn un rhanbarth, cafodd dau gynrychiolydd o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eu cyfweld
- gofyn i arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol am ddata cyswllt ar gyfer aelod o'u Bwrdd i fynd atynt i gael cyfweliad. Gofynnwyd i arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol nodi un aelod o'r Bwrdd a fu'n ymwneud â dylunio'r RIF a chafodd y sampl a ddarparwyd ei fonitro i sicrhau ei fod yn cynnig trawstoriad o ran rolau a sefydliadau. Darparwyd gwybodaeth mewn chwe rhanbarth, a chynhaliwyd cyfweliadau gyda phum aelod o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cyfwelwyd trawstoriad o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau a chynrychiolwyr trydydd sector
- derbyn data cyswllt a chysylltu â deg o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd naill ai wedi bod yn ymwneud â gwaith dylunio'r RIF neu wedi bod yn rhan o'i gweithredu, a chynnal cyfweliadau gyda phump ohonynt
- derbyn data cyswllt a chysylltu ag wyth unigolyn oedd â rôl Noddwr Cenedlaethol y Cymunedau Ymarfer a chyfweld â phump ohonynt, yn ogystal â dau gynrychiolydd o ddeiliaid contract Llywodraeth Cymru a benodwyd i hwyluso'r Cymunedau Ymarfer

- dadansoddi canfyddiadau'r gwaith maes a pharatoi'r adroddiad hwn. Dadansoddwyd cofnodion cyfweliadau yn thematig gan ddefnyddio'r cwestiynau canllaw trafod.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.9 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn.

- Mae Pennod 2 yn archwilio dyluniad a phensaernïaeth y RIF.
- Mae Pennod 3 yn ystyried Modelau Gofal y RIF.
- Mae Pennod 4 yn nodi canfyddiadau'r cyfweliadau mewn perthynas â datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol a sut maent yn cydweddu ag amcanion y RIF.
- Mae Pennod 5 yn archwilio gweithrediad y RIF hyd yma.
- Mae Pennod 6 yn trafod ymgysylltu â'r Cymunedau Ymarfer.
- Mae Pennod 7 yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol.
- Mae Atodiad A yn nodi'r offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd.

## 2. Dyluniad a phensaernïaeth y RIF

### Cyflwyniad

2.1 Roedd cyfranwyr yn gefnogol ar y cyfan i ddyluniad a phensaernïaeth gyffredinol y RIF, a barnwyd ei bod yn rhaglen uchelgeisiol oedd wedi rhoi ystyriaeth i lawer o wersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol fel y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF).

2.2 Cafwyd cefnogaeth eang gan yr holl gyfranwyr i'r uchelgeisiau a nodwyd ar gyfer y RIF a barnwyd bod rhesymeg sylfaenol gref i'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni:

> 'Mae yna lawer o bethau positif iawn am y dyluniad. Mae symud oddi wrth grant penodol ar gyfer grŵp poblogaeth tuag at agwedd poblogaeth gyfan[7] … a chanolbwyntio ar y chwe philer yn gwneud llawer o synnwyr.' [Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

2.3 Er bod yr holl fathau o gyfranwyr yn ystyried dyluniad yr RIF yn un rhesymegol ar y cyfan, mae arweinwyr ac aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r farn bod ei gymhwyso yn y byd go iawn yn fwy heriol. Ystyrir yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r RIF hyd yma ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

### Cryfderau ac anawsterau'r dyluniad

2.4 Nodwyd cryfderau allweddol dyluniad rhaglen y RIF fel a ganlyn:

- **ei gyfnod ariannu hirdymor**: roedd cyfranwyr rhanbarthol yn croesawu'r ffaith bod cyllid wedi bod ar gael am gyfnod o bum mlynedd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2027, gan fod cronfeydd blaenorol yn gweithredu o fewn amserlenni ariannu llawer byrrach. Ystyriwyd bod y trefniant ariannu tymor hwy yn rhoi mwy o sicrwydd i'r garfan hon, a mwy o amser i brofi a mireinio dulliau newydd
- **un gronfa fuddsoddi**: roedd cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r penderfyniad i gyfuno ffrydiau ariannu amrywiol megis y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid yn un ffrwd ariannu i gefnogi'r gwaith o gyflenwi darpariaeth iechyd a gofal integredig, gan y barnwyd y

---

[7] Gan dderbyn wrth gwrs bod y RIF yn canolbwyntio ar bum poblogaeth â blaenoriaeth, fel y nodir yn y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023)

byddai un gronfa'n ei gwneud yn haws cynllunio darpariaeth ar lefel ranbarthol a symleiddio prosesau gweinyddu ac adrodd

- **ei hyblygrwydd**: yn yr ystyr nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cyfyngu gan yr angen i fuddsoddi cyfrannau penodol o gyllid ar grwpiau poblogaeth neu ddarpariaethau penodol, ac eithrio yn achos tair cronfa wedi'u clustnodi[8]
- **cyflwyno model ariannu taprog**: croesawyd hyn mewn egwyddor. Mae cyfranwyr rhanbarthol o'r farn bod cyllid taprog yn ysgogydd defnyddiol i annog partneriaid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio strategaethau ymadael prosiectau. Er eu bod yn cefnogi'r egwyddor dylunio hon, mae'n heriol iawn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithredu'r cysyniad yn yr amgylchiadau ariannol presennol sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal. Mae hyn wedi arwain at rai canlyniadau anfwriadol, megis partneriaid yn gwneud penderfyniadau ynghylch beth i'w gynnwys yn y RIF ar sail argaeledd arian cyfatebol:

  > 'Un o wendidau'r rhaglen yw bod pawb yn cytuno gyda'r syniad o dapro … gan ganiatáu i [gyllid] y RIF gael ei ailgylchu a'i adleoli [ar gyfer prosiectau eraill]. Oherwydd y sefyllfa rydyn ni ynddi, mae sefydliadau'n… dweud yn blwmp ac yn blaen 'allwn ni ddim camu i mewn i'r gofod yna. Does yna ddim arian.' [Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

2.5 **Anawsterau allweddol y dyluniad** a amlygwyd gan gyfranwyr ynghylch pensaernïaeth y RIF oedd:

- **mae'n mabwysiadu dull rhagnodol tir canol**: mae'n sefyll hanner ffordd rhwng bod yn fodel ariannu neilltuedig cwbl ragnodol (gyda rhai elfennau mewn cyllid wedi'i glustnodi) a model cyllid craidd mwy hyblyg (lle nad oes amodau penodol i'r ffordd y gellir defnyddio cyllid). Er bod cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch llunio'r RIF, fe wnaeth cyfranwyr rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a Noddwyr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer fel ei gilydd ei disgrifio fel rhaglen gyllido gymhleth iawn, sy'n agored

[8] Y tair cronfa wedi'u clustnodi yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; Prosiectau dementia sy'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia a gweithrediad y Safonau Gofal Dementia; a chyllid uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl/rhyddhau o'r ysbyty

i’w dehongli, ac sy’n creu heriau i bartneriaethau sy’n ceisio datrys blaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd. Roedd gan gyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru farn gref, ond rhanedig, o ran a fyddai’r RIF wedi’i dylunio’n well petai’n fwy rhagnodol neu’n llai rhagnodol. Roedd rhai’n dadlau y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn fwy rhagnodol o’r cychwyn cyntaf tra bod eraill (yn enwedig cyfranwyr rhanbarthol) o’r farn y dylai’r cronfeydd fod wedi’u hymgorffori mewn trefniadau cyllid craidd. Disgrifir yr agwedd fel un wahanol iawn i Loegr, lle mae manylebau a gomisiynir gan ranbarthau ar gyfer modelau y maent am eu profi, yn alinio’n agosach â chyfeiriad polisi ac arferion gorau.

- **mae ymgorffori Modelau Gofal yn her**: mynegodd cyfranwyr ddryswch a rhwystredigaeth ynghylch y gwaith o fabwysiadu a gweithredu’r Modelau Gofal. Soniodd arweinwyr ac aelodau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sawl tro am y tensiynau rhwng y Modelau Gofal a blaenoriaethau rhanbarthol ac anghenion y boblogaeth a’r anhawster o integreiddio cysyniad y Modelau Gofal i brosiectau sydd eisoes yn bodoli:

  ‘dydyn ni ddim yn dechrau gyda llechen lân.’ [Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

  ‘weithiau mae’n anodd alinio’r polisïau â’r modelau …. fe fuon ni’n edrych ar bob un o’r polisïau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ceisio’u cysoni, ac roedd yn dipyn o hunllef oherwydd … roedd bron pob polisi’n alinio â bron pob model gofal.’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

  ‘dydy’r RIF ddim yn rhoi ystyriaeth i’r blaenoriaethau strategol presennol ehangach ar gyfer ein gwasanaethau … rydyn ni wedi ceisio ôl-ffitio hynny … dyna lle rydyn ni wedi wynebu heriau’n gyflym iawn’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

- **yn aml dim ond cyfran fach yw hi o'r cyllid a ddyrennir** i brosiectau a gwasanaethau unigol sy'n cael eu darparu. Mae asesu'r gwahaniaeth a wneir gan gyllid y RIF o fewn rhaglenni gwaith ehangach yn heriol felly

- **mae tensiynau ynghylch adrodd a mesuriadau perfformiad**: er gwaetha’r ffaith eu bod wedi bod yn rhan o’r trafodaethau dylunio, mae barn gref yn rhanbarthol bod gofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y RIF yn feichus, ac nad ydynt o fawr o werth i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran eu

helpu i ddod i farn am berfformiad y RIF neu effaith ymyriadau a ariennir. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru, yn y cyfamser, nad ydynt yn cael tystiolaeth o ansawdd am effaith a llwyddiannau ymyriadau a ariennir, er bod llawer o brosiectau'r RIF wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn cyn i'r RIF gael ei dylunio a'i rhoi ar waith.

**Addasrwydd polisi**

2.6 Er ei bod wedi'i dylunio fel dull strategol, mae'r RIF yn ei chael yn anodd cynnal ei ffocws strategol oherwydd y ceisiadau ychwanegol a roddir ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fabwysiadu polisïau mwy brys a thymor byr, sy'n gwthio blaenoriaethau rhanbarthol ar draul uchelgeisiau tymor hwy'r RIF. Cafwyd awgrym cryf gan gyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru fod y RIF bellach yn rhan o faes polisi gorlawn a nodweddir gan fentrau a chyhoeddiadau polisi newydd fel 'Ymhellach yn Gyflymach' (a elwir bellach yn Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach) a'r Rhaglen Chwe Nod[9]. Teimlai'r ddwy ochr fod galwadau o'r fath yn tynnu sylw o ran eu gallu i ganolbwyntio ar y RIF:

> 'Dw i'n credu y gallai fod yn eitha dylanwadol dim ond i'n sylw ni beidio cael ei dynnu gan fentrau bondigrybwyll eraill sy'n dod allan o unman y mae'n rhaid i ni wedyn ymdrin â nhw yng nghyd-destun yr hyn rydyn ni'n ceisio'i gyflawni'. [Un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

2.7 Mynegwyd y farn gan gyfranwyr rhanbarthol y gallai'r blaenoriaethau "Llwybr 1" a nodir yn Ymhellach yn Gyflymach,[10] sy'n canolbwyntio ar symud adnoddau tuag at wasanaethau ataliol, cymunedol, fod wedi gweithredu fel 'glud' defnyddiol i ddod â'r holl elfennau polisi ynghyd, ond bod cyfle wedi'i golli yma gyda thirlun polisi sy'n teimlo ar hyn o bryd fel petai'n tynnu yn erbyn integreiddio yn hytrach nag yn ei gefnogi.

2.8 Roedd llawer o amwysedd – ymhlith cyfranwyr rhanbarthol yn bennaf – ynglŷn â beth fyddai goblygiadau mentrau newydd ar gyfer y RIF, ac nid yw ymateb y

---

[9] Mae rhagor o fanylion am y cyhoeddiadau a'r mentrau polisi hyn wedi'u nodi yn y *Fframwaith ar gyfer Newid* (Verity a Llewellyn, 2023). Nod menter 'Ymhellach yn Gyflymach' yw cyflymu'r broses o weithredu iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Gweler Meithrin Gallu Drwy Ofal cymunedol ymhellach yn gyflymach

Mae'r Rhaglen Chwe Nod yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng. Gweler Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

[10] Mae blaenoriaethau Llwybr 1 Ymhellach yn Gyflymach yn flaenoriaethau uniongyrchol, y disgwylir iddynt gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn gyntaf tra bod blaenoriaethau Llwybr 2 yn flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i bolisïau newydd a’u heffaith ar y RIF yn eglur. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ceisio dangos sut mae blaenoriaethau’r RIF a pholisïau newydd yn dod at ei gilydd drwy roi cyflwyniadau mewn Cymunedau Ymarfer, er mwyn helpu i wella dealltwriaeth ymarferwyr rhanbarthol o’u haliniad, ond mae cyfranwyr rhanbarthol o’r farn bod angen rhagor o waith eto ar hyn.

2.9 Mae yna farn hefyd bod angen llywodraethu gwell yn y maes polisi trawsnewid yn gyffredinol, gyda diffyg rhyngweithio a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth y GIG a chwaraewyr allweddol eraill, gan arwain at lawer o ddyblygu ymdrech a phrosiectau o dan y RIF sydd heb eu halinio bob amser gyda rhaglenni cenedlaethol. Yn yr un modd, gall llywodraethu weithiau fod yn ddatgysylltiedig ar lefel ranbarthol lle mae’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau’r RIF, pan fo’r cyfrifoldeb am y polisi a’r strategaeth a ddylai fod yn gyrru prosiectau o’r fath yn gorwedd mewn mannau eraill:

> ‘Ble mae’r arweinyddiaeth system i wau popeth gyda’i gilydd? Yn y pen draw, rhan fach o system fwy yw’r RIF.’ [Noddwr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer / Deiliad Contract]

2.10 Mae adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes gan gyfranwyr rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a rhai o’r noddwyr Cymunedau Ymarfer cenedlaethol hefyd yn awgrymu bod datblygiadau polisi diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at bwyslais cynyddol ar ddarpariaeth iechyd, ac ar leihau pwysau ar ysbytai yn benodol. Mae cynllunio ar gyfer y gaeaf bellach wedi dod yn ‘broblem 365 diwrnod y flwyddyn’, ac roedd cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod y RIF yn cael ei defnyddio fwyfwy i helpu i ddatrys problemau o’r fath, er bod gan y rhaglen nod llawer ehangach. Nododd cyfweleion rhanbarthol eu bod yn cael eu hannog i ddefnyddio unrhyw lithriant o ran cyllid y RIF i gefnogi’r llif allan o’r ysbyty. Roedd cyfranwyr rhanbarthol o’r farn bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, o ganlyniad, wedi dod i ganolbwyntio fwyfwy ar drafodaethau ynghylch sut i liniaru’r pwysau ar y GIG, sydd wedi arwain at lai o drafodaethau strategol ynghylch defnyddio’r RIF at ddibenion gofal ataliol.

**Dyraniad i'r sector gwerth cymdeithasol**

2.11 Mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyrannu o leiaf 20 y cant o'u dyraniad RIF i sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol.[11] Roedd derbyniad cyffredinol i'r ffaith bod modelau ariannu blaenorol wedi dangos, oni bai bod cyfran o'r fath wedi'i nodi yn y canllawiau ariannu, na fyddai'n digwydd yn gyson. Mae adborth yn awgrymu bod rhai rhanbarthau yn ystyried hyn yn ofyniad rhesymol ac yn cyrraedd y targed heb fawr ddim anhawster. Mae eraill yn ei chael yn fwy heriol, ac mae'r gofyniad yn creu tyndra ar draws y rhanbarth. Yn yr achosion hyn, cafwyd awgrym ei bod yn anodd dyrannu un rhan o bump o'r cyllid drwy sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol gan fod cyfran fawr o'r RIF wedi'i ymrwymo ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u hen sefydlu, gan gynnwys gwasanaethau statudol. Awgrymodd un rhanbarth hefyd fod y trydydd sector ei hun yn ei chael hi'n fwyfwy anodd darparu gwasanaethau oherwydd problemau staff a chapasiti.

2.12 Er bod hyn efallai'n fater ehangach na rhaglen y RIF, datgelodd y gwaith maes hefyd rywfaint o dyndra ynghylch y diffiniad o'r term 'gwerth cymdeithasol' ac a yw hyn wedi'i gyfyngu i sefydliadau'r 'trydydd sector' neu a yw'n ehangach na hynny. Dadleuwyd bod y term wedi bod yn agored i'w ddehongli ar lefel ranbarthol ac felly bod ei gyflawni yn dibynnu ar y diffiniad a fabwysiedir. Dadleuodd cynrychiolwyr y trydydd sector y dylid cyfyngu'r diffiniad i wasanaethau a ddarperir gan bartneriaid trydydd sector, gan eithrio gwasanaethau statudol a gomisiynir gan awdurdodau lleol i'w darparu gan gontractwyr trydydd sector. Ar y llaw arall, credai cyfranwyr awdurdodau lleol y dylai gynnwys gwaith awdurdodau lleol o ran gwerth cymdeithasol.

2.13 Mae tystiolaeth bod dyraniad y gofalwyr di-dâl o bump y cant wedi'i gyrraedd yn fras, a dywedodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod hyn yn gymharol hawdd gan fod ganddynt raglenni sefydledig ar gyfer hynny eisoes.

[11]Mae canllawiau'r RIF yn nodi y disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 20 y cant o'u dyraniad RIF i sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol, gan fod ganddynt ddyletswydd statudol i hyrwyddo'r Sector Gwerth Cymdeithasol, fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweler y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol-canllawiau-refeniw (llyw.cymru) t.22

**Cronfeydd cenedlaethol wedi'u clustnodi**

2.14 Awgrymodd y rhai sy'n cytuno â'r cysyniad o fabwysiadu cronfeydd wedi'u clustnodi[12] yn y RIF eu bod yn gweithio'n dda oherwydd bod y dull wedi bod yn fwy rhagnodol nag elfennau eraill y RIF, a bod y gweithgareddau a ariennir, megis y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, wedi'u hen sefydlu a'u hintegreiddio'n dda, ar ôl cael cymorth drwy gynlluniau cyllid grant blaenorol. Roedd nifer fach o gyfranwyr rhanbarthol yn anghytuno â'r egwyddor o gymhwyso cyllid wedi'i glustnodi o fewn y RIF, gan ddadlau y byddai'n ychwanegu cymhlethdod pellach i'r rhaglen. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda chyllid ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl, ac roedd rhai cyfranwyr rhanbarthol o'r farn bod y canllawiau'n rhy gyfyngol gan mai dim ond gofal seibiant wedi'i ariannu y gallent ei gefnogi.

2.15 Wrth ystyried y cronfeydd unigol sydd wedi'u clustnodi, roedd canfyddiad bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r prosiectau a ariennir o dan y Cynllun Gweithredu Dementia yn syml ac yn gweithio'n dda. O ran y cymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, mae rhanbarthau wedi ymdrin â'r elfen hon yn wahanol. Mae rhai wedi brigdorri'r gyllideb gyffredinol ac wedi comisiynu gwasanaethau penodedig tra bod eraill wedi edrych ar ymgorffori cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl ym mhrosiectau presennol y RIF.

## 3. Modelau Gofal

**Cyflwyniad**

3.1 Er mai un o nodweddion allweddol rhaglen y RIF yw datblygu a gwreiddio modelau cenedlaethol o ofal integredig, roedd llawer o amwysedd ymhlith cyfranwyr rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a noddwyr cenedlaethol Cymunedau Ymarfer fel ei gilydd wrth geisio diffinio Model Gofal yng nghyd-destun y RIF a sut y dylai edrych. Roedd rhai'n ei chael yn anodd diffinio Model Gofal:

> 'Mae'n hurt yndyw hi ond fy ymateb greddfol yw dweud: dw i ddim yn gwybod. Ac os nad ydw i'n gwybod, pwy sydd?' [un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

3.2 Roedd gan eraill ddeongliadau gwahanol o'r hyn y dylai fod. Awgrymodd gwahanol gyfranwyr mai fframwaith lefel strategol ydyw, neu ganllawiau, neu lasbrint yn

[12] Ar gyfer Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, prosiectau Dementia sy'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia a gweithrediad y Safonau Gofal Dementia, a chyllid uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl/rhyddhau o'r ysbyty.

disgrifio'r hyn y dylai dinesydd ei ddisgwyl o ran eu gofal iechyd a'u cymorth llesiant. Roedd gan eraill ddehongliad mwy penodol o'r hyn ddylai Model Gofal fod h.y., llwybr rhagnodol iawn y disgwylir i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd neu ofal ei ddilyn, yn seiliedig ar arfer gorau:

> 'Mae beth yw'r model gofal yn un anodd, ond yn syml, cyfres o egwyddorion yw model gofal sy'n galluogi, neu gyfres o ffyrdd o wneud pethau, sydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau cysondeb [ar draws gwasanaethau a meysydd].' [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol].

3.3 Cafwyd peth awgrym gan gyfranwyr bod terminoleg y RIF o amgylch y Modelau Gofal wedi newid yn sydyn o 'bileri' i 'Fodelau Gofal' heb esboniad dilys na rhesymeg glir, gydag un swyddog o Lywodraeth Cymru hefyd yn awgrymu nad oedd yn glir:

> 'pam roedden ni'n ei wneud fel hyn [h.y. gyda phwyslais ar ganlyniadau lefel uchel]' oherwydd roedd risg o ailadrodd y problemau a wynebwyd gyda'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, a bod yr un mathau o ymyriadau ganddon ni yn y pen draw. Fe allai sicrhau eglurder ar Theori Newid ar gyfer y RIF o'r cychwyn cyntaf fod wedi gallu taclo rhai o'r materion yma o'r cychwyn cyntaf.' [un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

3.4 Er bod rhai cyfranwyr rhanbarthol yn gefnogol i'r cysyniad o Fodelau Gofal, roedd yn amlwg eu bod wedi dod yn rhwystrau yn hytrach nag yn alluogwyr ar gyfer darpariaeth ranbarthol, oherwydd yr angen i ôl-ffitio gweithgareddau a ariennir ac adrodd arnynt yn y modd hwn. Roedd mwy o dderbyniad i'r syniad mai fframweithiau trosfwaol yw Modelau Gofal yn hytrach na modelau rhagnodol.

3.5 Ar lefel ehangach, roedd yr holl fathau o gyfranwyr yn fodlon â chylch gwaith y Modelau Gofal, yn y ffaith bod y rhain yn cael eu gweld fel meysydd gwaith â blaenoriaeth ar gyfer rhaglen y RIF. Roedd disgwyliad cyffredinol y byddai'r Modelau Gofal yn cael eu diffinio'n well dros amser, ac awgrym cryf y byddai Modelau Gofal wedi'u ffurfio'n llawn erbyn diwedd cyfnod rhaglen y RIF. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ymhlith cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru o ran ai Llywodraeth Cymru fyddai'n arwain ar eu datblygiad neu i ba raddau y byddai'r Cymunedau Ymarfer yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu'r Modelau Gofal.

3.6 Mae neges eglur o'r gwaith maes gyda chyfranwyr rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a noddwyr Cymunedau Ymarfer, yn ymwneud â'r angen am fwy o eglurder ynghylch uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Modelau Gofal, ac a fwriedir iddynt fod yn llwybrau rhagnodol neu'n gyfres ar y cyd o gydrannau arfer da. Os mai'r olaf yw'r bwriad, yna mae'n bosibl bod achos dros egluro a diffinio'r derminoleg a ddefnyddir, fel ei bod yn well adlewyrchiad o'r cysyniad sy'n cael ei geisio. Yn gyffredinol, datgelodd y gwaith maes fod mwy o gefnogaeth iddynt fod yn 'fframweithiau' neu'n 'bileri', yn hytrach na modelau darparu rhagnodol, a fyddai'n nodi elfennau craidd gwasanaeth integredig:

> 'Erbyn diwedd y rhaglen bum mlynedd, fe ddylen ni allu dangos bod pob rhanbarth ledled Cymru bellach yn gweithio i'r glasbrintiau hyn [h.y. y Modelau Gofal].' [un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

3.7 Cafwyd awgrymiadau amrywiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru, noddwyr Cymunedau Ymarfer a chyfranwyr rhanbarthol a oedd o'r farn y gallai fod achos dros fyfyrio ar yr heriau y mae Modelau Gofal yn eu hachosi o ran darparu'r RIF a cheisio'u datrys. Gallai hyn gynnwys:

- oedi'r pwyslais ar y Modelau Gofal
- eu hadolygu
- uno, neu leihau nifer y Modelau Gofal
- ymdrin â nhw gyda chyffyrddiad ysgafnach
- cynnig mwy o hyblygrwydd o ran eu gweithredu fel y gall rhanbarthau ddarparu ar eu cyfer yn well wrth gyflawni, neu
- newid i Fodelau Gofal sy'n seiliedig ar garfanau, gyda'r chwech presennol yn dod yn bileri oddi mewn iddynt.

**Llywio a gyrru Cynlluniau Strategol rhanbarthol**

3.8 Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd yn y gwaith maes i awgrymu bod y Modelau Gofal wedi llywio gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau cychwynnol ynghylch sut y byddai cyllid y RIF yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarthau, er bod arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu canllawiau'r RIF. Mae cynlluniau a blaenoriaethau rhanbarthol wedi cael mwy o ddylanwad ar weithgareddau a ariennir gan y RIF ar hyn o bryd

na chanllawiau'r RIF, a Modelau Gofal yn benodol. Roedd yn fwy cyffredin i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod wedi ôl-ffitio'u blaenoriaethau rhanbarthol i'r Model Gofal mwyaf priodol, yn aml wedi'u hysgogi gan y gofyniad i adrodd yn y modd hwn.

> 'Rydyn ni'n gwneud i bethau ffitio. A dweud y gwir, dim ond penawdau mympwyol ydyn nhw [y Modelau Gofal] y mae prosiectau'n dod oddi tanyn nhw.' [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

3.9 Er y gellid gweld y RIF fel rhaglen ariannu newydd, nododd cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru bod y rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i ddyrannu i gefnogi prosiectau presennol a gwasanaethau statudol. Fel y nododd un cyfrannwr rhanbarthol o'r fath, 'ailbecynnu' yr hyn roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gyflawni'n flaenorol drwy gronfeydd y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid y mae'r RIF i raddau helaeth. Etifeddodd rhaglen RIF lawer o brosiectau etifeddol a gwelodd y rhanbarthau nad oedd dim modd iddynt roi'r gorau i ddarparu'r prosiectau hynny pan ddaeth y RIF ar gael, oherwydd na ellid eu hariannu o unman arall. Mae adborth gan arweinwyr rhanbarthol yn awgrymu bod prosiectau sydd wedi'u datblygu fel rhai newydd ers cyflwyno'r RIF yn fwy tebygol o gael eu hariannu gant y cant gan y RIF a'u bod wedi'u dylunio i lenwi bylchau ar draws y Modelau Gofal. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn rhai sy'n dal i gael eu sefydlu a'u treialu mewn llawer o achosion.

3.10 Mae ambell ranbarth wedi ceisio ymdrefnu yn unol â'r Modelau Gofal ac wedi penodi arweinwyr rhaglen ar gyfer pob un o'r chwe Model Gofal. Ond ar lefel darparu gwasanaethau, mae awgrym nad yw'r Modelau Gofal yn cael llawer o effaith – er enghraifft, soniodd un cyfarwyddwr gwasanaethau nad oedd wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r Modelau Gofal wrth gynllunio neu ddarparu eu gwasanaethau. Gwelodd y gwaith maes beth tystiolaeth bod y darpariaethau sy'n cael eu hariannu yn cael eu hadolygu a'u cydgrynhoi i sicrhau gwell aliniad gydag uchelgeisiau'r rhaglen yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflawni. Dywedodd un arweinydd rhanbarthol yn ystod y gwaith maes fod rhai o brosiectau'r RIF eisoes wedi'u prif ffrydio. Yn yr achos hwn, dywedwyd bod prosiectau gwerth £3.5 miliwn wedi'u prif ffrydio a'u tynnu allan o'r RIF yn ystod y cyfnod datblygu cychwynnol a bod y rhanbarth yn y broses o geisio prif ffrydio cyfres arall o brosiectau gwerth £1 miliwn ar adeg gwneud y gwaith maes.

3.11 Mae canfyddiad bod y Modelau Gofal yn mynd ar draws grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae hyn yn creu heriau o ran gweithredu:

> ‘Rwy’n credu bod ychydig o dyndra oherwydd mae’r rhan fwyaf o’r polisïau wedi’u hysgrifennu, ac mae’r cyllid yn dod aton ni ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol a grwpiau oedran penodol. Weithiau mae braidd yn anodd alinio’r polisïau gyda’r modelau gofal.’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

3.12 Teimlai nifer o’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y byddai Modelau Gofal yn seiliedig ar grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth yn fwy priodol ac yn unol â’u dull ehangach o gynllunio a chyflawni yn y rhanbarthau:

> ‘Rwy’n credu ein bod yn edrych ar bethau o ben anghywir y telesgop.’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

3.13 Her fawr arall i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw bod eu prosiectau RIF yn aml yn cyfrannu at fwy nag un Model Gofal (gan eu bod yn defnyddio dull sy’n seiliedig ar y boblogaeth), felly roedd teimlad nad oedd eu halinio ag un Model Gofal yn ymarferiad arbennig o ystyrlon. Dywedodd cynrychiolwyr rhanbarthol y gallai rhai prosiectau gyfrannu at sawl Model Gofal. Mae rhanbarthau hefyd wedi dyrannu’r un math o brosiectau i Fodelau Gofal gwahanol, felly nid oes cysondeb yn y ffordd y maent yn cael eu dehongli:

> ‘mae tua hanner dwsin o brosiectau yn [enw’r rhanbarth] allai ddod o dan unrhyw un o bump o’r chwe model gofal. Roedd rhaid i ni ei roi yn un yn fympwyol oherwydd dyna sut mae’r strwythur adrodd yn cael ei sefydlu.’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

3.14 Dywedodd cynrychiolwyr rhanbarthol ei bod yn haws cysoni eu blaenoriaethau rhanbarthol a’u rhaglenni gwaith gyda rhai Modelau Gofal nag eraill. Roedd yn haws alinio i'r Model Gofal O’r Ysbyty i'r Cartref a'r Model Gofal Cefnogi Teuluoedd. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr rhanbarthol fod y Model Gofal Atebion Seiliedig ar Lety yn profi’n fwy problematig a’i fod yn debycach i alluogwr[13] gan fod angen llety priodol ar bob grŵp poblogaeth.

---

[13] Mae’r RIF yn mabwysiadu pum galluogwr allweddol: Cynllunio a chomisiynu integredig; technoleg a datrysiadau digidol; hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol; hybiau cymunedol integredig; datblygu ac integreiddio’r gweithlu. Mae’r rhain wedi’u nodi yng Nghanllawiau Refeniw RIF 2022-27: y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol-canllawiau-refeniw (llyw.cymru)

3.15 Heb gymorth y RIF, mae adborth gan gynrychiolwyr rhanbarthol yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o brosiectau'n parhau beth bynnag, yn anad dim oherwydd mai cyfran fach o'r cyllid cyffredinol sydd ar gael ar gyfer prosiectau a ariennir sy'n dod drwy'r RIF. Awgrymodd cynrychiolwyr rhanbarthol hefyd y byddai gweithgareddau a ariennir gan y RIF yn cael eu blaenoriaethu gan y sefydliad partner arweiniol dros rai eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan y RIF pe na bai cyllid rhaglen, oherwydd roedd prosiectau'r RIF mewn gwirionedd yn brosiectau blaenoriaeth, ac yn aml yn wasanaethau statudol, yr oedd rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu darparu. Mewn geiriau eraill, byddai partneriaid rhanbarthol yn rhoi'r gorau i gynnal prosiectau nad ydynt yn ymwneud â'r RIF er mwyn sicrhau y gallai prosiectau'r RIF barhau. Roedd llai o sicrwydd ymhlith cyfranwyr ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd i'r prosiectau RIF hynny sy'n cael cyllid o gant y cant pe na bai cyllid rhaglen, gan y byddai angen i bartneriaid ariannu ymyriadau eu hunain yn eu cyfanrwydd ar draul gwasanaethau eraill.

### Galluogwyr allweddol

3.16 Bernir bod y pum galluogwr allweddol yn briodol ac mae derbyniad iddynt ar draws y sector fel ffyrdd pwysig o weithio a fyddai'n ddisgwyliedig o fewn model gofal integredig. Myfyriodd cyfranwyr rhanbarthol sawl tro ar y ffaith bod y galluogwyr allweddol eisoes wedi'u hymgorffori mewn dulliau darparu rhanbarthol a'u bod yn gonglfeini pwysig ar gyfer darparu eu gwasanaethau. Mae rhanbarthau'n ei chael yn anodd dangos pa waith ychwanegol y maent yn ei wneud yng nghyd-destun y galluogwyr allweddol er mwyn cyflawni amcanion y RIF, yn anad dim oherwydd bod eu gwaith ar draws y galluogwyr allweddol yn llawer ehangach. Ategwyd y pwynt hwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a ddywedodd nad oedd y galluogwyr allweddol yn cael llawer o sylw mewn adroddiadau rhanbarthol. Er mwyn rhoi enghraifft, eglurodd un rhanbarth fod ganddynt raglenni datblygu'r gweithlu ar waith ar draws y rhanbarth, sy'n helpu i gyfrannu at y galluogwr datblygu'r gweithlu ac integreiddio ond sydd â chwmpas llawer ehangach na phrosiectau'r RIF. O ganlyniad, mae'n anodd iawn pennu pa gyfraniad y gellir ei briodoli'n benodol i weithgareddau a ariennir gan y RIF.

3.17 Roedd cyfranwyr rhanbarthol o'r farn bod un o'r galluogwyr allweddol, sef Technoleg ac Atebion Digidol, yn llai datblygedig na'r lleill ar draws eu rhanbarth ac oherwydd hyn, bod angen mwy o bwyslais arno fel galluogwr yn rhaglen y RIF

yn y dyfodol. Soniodd un o'r cyfranwyr rhanbarthol nad oedd ei ranbarth yn manteisio i'r graddau y gallai ar ofal a alluogir gan dechnoleg a bod lle sylweddol i ddefnyddio technoleg yn well er mwyn cyflawni amcanion y RIF yn y dyfodol.

**Grwpiau Poblogaeth â Blaenoriaeth**

3.18 Fel y nodwyd ar gyfer y galluogwyr allweddol, roedd yr holl fathau o gyfranwyr (cyfranwyr rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a noddwyr Cymunedau Ymarfer) o'r farn bod y pum grŵp poblogaeth â blaenoriaeth[14] yn berthnasol ac yn briodol. Mae eu cwmpas eang yn golygu nad oes dim grwpiau targed sydd heb eu cynnwys, ac eithrio pobl anabl o oedran gweithio efallai.

3.19 Mae adborth gan gyfranwyr rhanbarthol yn awgrymu bod darpariaeth y RIF wedi canolbwyntio ar y grŵp poblogaeth pobl hŷn hyd yma. Dywedodd sawl cyfrannwr rhanbarthol hefyd fod y ffocws hwn yn briodol o ystyried demograffeg Cymru, a'r boblogaeth gynyddol hŷn.

3.20 Teimlai noddwyr rhanbarthol a chenedlaethol fod angen gweithredu penodol wedi'i dargedu at blant a phobl ifanc hefyd, yn enwedig o ystyried pwyslais Cymru ar Genedlaethau'r Dyfodol, a bod angen sicrhau bod prosiectau a ariennir yn canolbwyntio ar eu hanghenion nhw. Teimlwyd bod rhywfaint o dyndra ac elfen o risg rhwng ffocws eithaf penodol a chyfyngol y RIF ar blant sydd ar gyrion gofal/plant â phrofiad o fod mewn gofal, a fframwaith ehangach NYTH sy'n ymdrin â materion plant ehangach. Disgrifiwyd hyn fel y gwrthwyneb i'r anawsterau roedd rhai o'r Cymunedau Ymarfer eraill yn ymgodymu â nhw ar hyn o bryd, lle roedd cylchoedd gwaith yn rhy eang.

[14] Mae'r pum grŵp poblogaeth â blaenoriaeth wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sef: pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia; plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth; pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol; gofalwyr di-dâl; pobl ag anghenion llesiant iechyd meddwl ac emosiynol.

## 4. Datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol

### Cyflwyniad

4.1 Roedd cynrychiolwyr rhanbarthol o'r farn bod y broses o ddatblygu cynigion buddsoddi'r RIF yn heriol gan ei bod yn golygu llawer iawn o waith iddyn nhw. Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fyddai'n arwain y gwaith, oedd wedi'i lywio'n bennaf gan flaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol yn ogystal ag adolygiad o ymrwymiadau ariannu presennol y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Pan oedd cynlluniau wedi'u datblygu 'o'r brig i lawr' gyda gweledigaeth glir, barnwyd eu bod wedi bod yn fwy llwyddiannus.

4.2 O ran amseru, nid oedd cynigion buddsoddi'r RIF wedi'u paratoi cyn dyddiad dechrau'r rhaglen ym mis Ebrill 2022, er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod canllawiau drafft ar gael i'r rhanbarthau yn hydref 2021. Yn hytrach, fe'u paratowyd yn ystod gwanwyn a haf y flwyddyn honno. Roedd hyn yn golygu na chafodd Llywodraeth Cymru na'r rhanbarthau gyfle i drafod a diwygio'u cynigion er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf cyllid y RIF. Tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw hefyd at y ffaith nad oedd ganddyn nhw rôl gwneud penderfyniadau o ran cymeradwyo unrhyw gynigion buddsoddi RIF er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf ariannu.

4.3 Cododd barn gyffredin o'r gwaith maes, o gyfeiriad cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru, nad oedd y cynigion buddsoddi rhanbarthol o ansawdd uchel. Er bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi ceisio dilyn y canllawiau ariannu i wahanol raddau, roedd cyfranwyr yn credu bod cynlluniau'r rhanbarthau yn y pen draw yn anhylaw, yn anstrategol ac o ansawdd gwael. Nid oeddent yn cael eu hystyried yn arbennig o werthfawr i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu hunain, ac yn wir mewn rhai achosion nid oeddent wedi'u rhannu'n llawn ag aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu gweld yn ddefnyddiol chwaith fel ffordd o ddeall bwriadau a blaenoriaethau rhanbarthol. Er mai bwriad y cynigion buddsoddi yw rhoi trosolwg strategol yn ogystal â dealltwriaeth fanwl o brosiectau arfaethedig, soniodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn debycach i restr o brosiectau yn hytrach na chynllun strategol. Awgrymodd cynrychiolwyr rhanbarthol eu bod wedi gweld y broses yn heriol tra bod swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhanbarthau wedi 'gwasgu' eu cynigion i mewn i stensil Llywodraeth Cymru.

‘Dydw i ddim yn credu ein bod ni ar ein pennau ein hunain, ond dyw ansawdd y gwaith rydyn ni’n ei wneud ddim lle mae angen iddo fod. Doedd ansawdd yr achosion busnes ddaeth i mewn ar gyfer cyllid y RIF ddim yn cyrraedd safon y byddwn i’n ei gymeradwyo yn fy mwrdd iechyd i nac yn wir yr hyn y byddwn i’n disgwyl i bartneriaid statudol eraill eu cymeradwyo.’ [Aelod o Fwrdd Partneriaeth]

‘Fe ddechreuon ni eu darllen [y cynlluniau buddsoddi] ac roedd fy nghalon i’n suddo. Maen nhw’n gwasgu stwff o'u dogfennaeth eu hunain i mewn, stwff oedd ddim wir yn berthnasol i'r RIF a dweud y gwir. Roedd yn teimlo bron fel dichell. Rydych chi eisiau i bethau fod yn gryno ac yn fachog ac yn glir. Mae fel ceisio dod o hyd i nodwydd mewn tas wair weithiau, ceisio dod i lawr at union fanylion yr hyn sy’n digwydd.’ [un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

4.4 O ran adrodd, nododd arweinwyr rhanbarthol fod adroddiadau manwl iawn yn cael eu paratoi a’u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, er bod cwestiynau’n cael eu codi gan arweinwyr rhanbarthol o ran eu defnyddioldeb i’r holl bartïon. Her allweddol i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw dehongli data’r RIF ar gyfer nifer mor fawr o brosiectau yn eu rhanbarth. Cafwyd awgrym cryf gan gyfranwyr rhanbarthol nad yw’r gofynion adrodd manwl yn gymesur â lefel y buddsoddiad a wneir drwy’r RIF, o gymharu â chyllid prif ffrwd, ac y dylid canolbwyntio ar faterion strategol:

'Er fy mod i’n deall bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r arian yma i mewn a bod angen iddyn nhw wybod pa mor dda mae'n cael ei wario, fe fyddwn i’n dadlau nad ydyn nhw’n gofyn am yr hyn y dylen nhw fod yn gofyn amdano ... rydyn ni’n adrodd ar fanion prosiectau, a dw i’n credu bod hynny’n drysu’r meddwl’ [Arweinydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

4.5 Er hyn, barnwyd bod ansawdd yr adrodd i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwella mewn rhai meysydd gydag aelodau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn fwy gwybodus am y gwahaniaeth y mae prosiectau a ariennir yn ei wneud.

4.6 Awgrymodd noddwyr cenedlaethol Cymunedau Ymarfer hefyd nad oeddynt yn cael trosolwg da o’r hyn sy’n cael ei ddarparu neu ei gyflawni ar draws pob Model Gofal sydd o ddiddordeb iddynt, ac awgrymwyd y gellid gwella hyn dros weddill y cyfnod cyflawni.

**Cydweddiad gydag amcanion ehangach y RIF**

Canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar

4.7 Yn gyffredinol, roedd cyfranwyr rhanbarthol a rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod prosiectau'r RIF wedi'u dylunio gyda phwyslais cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar, er bod gogwydd weithiau tuag at ddarpariaethau fel atal derbyniadau i'r ysbyty, yn hytrach na gwasanaethau ymyrraeth gynharach ac ehangach. Awgrymwyd hefyd fod blaenoriaeth gynyddol yn cael ei rhoi i weithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar gael defnyddwyr gwasanaeth allan o'r ysbyty oherwydd y sbardunau polisi cenedlaethol yng nghyd-destun yr agenda hon. Yr eithriad i hyn yw'r gwaith sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd, y barnwyd ei fod yn mabwysiadu dull ymyrraeth gynharach.

4.8 Mae'n werth nodi bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn blaenoriaethu gwahanol feysydd gwaith sy'n dod o dan gylch gwaith y chwe Model Gofal, ac nad yw eu hymagwedd o fewn y RIF o reidrwydd yn adlewyrchu lefel gyffredinol y flaenoriaeth a'r cyllid a roddir i'r meysydd gwaith hyn ar lefel ranbarthol. Er enghraifft, gallai un rhanbarth fod yn dyrannu cyfran fach o'i gyllid RIF i Fodel Gofal hybu iechyd a llesiant emosiynol da ond gallai fod yn buddsoddi cyfran fawr o'i gronfeydd prif ffrwd nad ydynt yn gysylltiedig â'r RIF mewn gweithgareddau sy'n dod o dan y Model Gofal hwn. Mae hefyd yn wir bod rhai prosiectau a ariennir yn cyfrannu at sawl Model Gofal, ond dim ond yn cael eu hadrodd yn erbyn un ohonynt. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer prosiectau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, sy'n cael eu dyrannu i Fodel Gofal 'Cefnogi Teuluoedd' yn ddiofyn, er eu bod yn aml yn cyfrannu at Fodelau Gofal eraill.

Arloesol a thrawsnewidiol

4.9 Ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd bod prosiectau'r RIF yn arloesol ac yn drawsnewidiol, yn bennaf oherwydd bod prosiectau etifeddol wedi'u cario drosodd i'r ffrwd ariannu bresennol. Roedd Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn awyddus i'r egwyddor hon gael ei dehongli yn y ffordd ehangaf bosibl – yn yr ystyr y dylid cyfrif dysgu o fannau eraill yng Nghymru a'r tu hwnt, a gweithredu hynny mewn rhanbarth arall, fel rhywbeth arloesol a thrawsnewidiol i'r ardal dan sylw.

4.10 Roedd cyfranwyr rhanbarthol yn deall fel arfer y dylai'r RIF gefnogi prosiectau o'r fath:

> 'Diben y RIF yw rhoi ychydig o le inni ddatblygu newid trawsnewidiol, ac yn arbennig i weithio tuag at gyfuno cyllidebau. Dyna beth y dylai fod yn ei wneud.

Dydw i ddim yn siŵr ei fod yn gwneud hynny, ond dyna beth y dylai fod yn ei wneud.’ [Aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]

Unigolion a'u hanghenion yn ganolog i ofal

4.11 O ran rhoi’r unigolyn a’i anghenion yn ganolog i ofal, roedd cytundeb eang ymhlith cyfranwyr rhanbarthol bod y RIF yn gwneud hyn, yn bennaf oherwydd y ffordd roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn defnyddio asesiadau o anghenion y boblogaeth, a oedd yn tynnu ar lais defnyddwyr gwasanaethau, fel sail ar gyfer eu cynlluniau RIF rhanbarthol.

4.12 Cyfeiriodd cyfranwyr rhanbarthol hefyd at arfer da o ran agwedd gydgynhyrchiol. Mewn un rhanbarth, roedd cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan fawr, gan gyfrannu eu syniadau a'u barn a chael clust i’w lleisiau.

Mabwysiadu’r cynnig rhagweithiol o ran darparu gwasanaethau integredig drwy gyfrwng y Gymraeg

4.13 Gan na fwriadwyd iddo fod yn bwyslais mawr ar gyfer yr astudiaeth hon, ni chasglwyd llawer o dystiolaeth yn y gwaith maes ynghylch i ba raddau y mae gweithgareddau a ariennir yn mabwysiadu’r cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau integredig drwy gyfrwng y Gymraeg.[15] Fodd bynnag, yn gyffredinol, barnwyd bod hyn yn digwydd yn amlach mewn rhai ardaloedd nag eraill. Roedd hyn yn adlewyrchu dulliau ehangach o weithredu gan bartneriaid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mewn ymateb i strategaeth Mwy na Geiriau, a gwaith swyddogion y Gymraeg yn y byrddau iechyd yn benodol, yn hytrach nag unrhyw beth penodol a fabwysiadwyd fel rhan o raglen y RIF.

Mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol

4.14 Bu llawer o drafod yn ystod y gwaith maes ynghylch a fyddai’r gweithgareddau a ariennir yn helpu i arwain at fwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Barnwyd hefyd ei bod yn heriol yn y diwylliant a’r amgylchedd deddfwriaethol presennol i alluogi iechyd a gofal cymdeithasol i weithio fel un “tîm”. Roedd cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru fel ei gilydd yn derbyn bod mwy o waith i’w wneud o hyd i nodi a thynnu prosiectau nad ydynt yn cyd-fynd

[15] Mae canllawiau’r RIF yn nodi y dylid achub ar bob cyfle i gynyddu’r ‘cynnig rhagweithiol’ o wasanaethau integredig drwy gyfrwng y Gymraeg.

ag amcan y RIF o wella integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a datblygu dull mwy cydweithredol yn fwy cyffredinol rhwng partneriaid allweddol.

Newid system cynaliadwy mewn darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol

4.15 Teimlai cyfranwyr rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru fel ei gilydd mai cyllid y RIF oedd yn gyrru'r amcan hwn, gyda gwaith ar brosiectau O'r Ysbyty i'r Cartref yn helpu i alluogi hyn hyd yn oed pan oedd y berthynas rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol o dan straen yn ystod cyfnodau ariannol anodd.

## 5. Gweithrediad hyd yma

### Newidiadau i ddulliau gweithredu rhanbarthol ers cyflwyno Cynlluniau Strategol

5.1 Adroddodd rhai rhanbarthau eu bod wedi gwneud, neu wrthi'n gwneud, newidiadau i'w cynlluniau rhanbarthol er mwyn symud yn nes at uchelgeisiau rhaglen y RIF. Fodd bynnag, cydnabuwyd yn gyffredinol, oherwydd bod y RIF yn cefnogi cymaint o ddarpariaeth etifeddol a bod yr hinsawdd ariannol mor dynn ar hyn o bryd, y byddai'n heriol iddynt gyflawni'r nod hwn.

5.2 Yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflawni, roedd rhai cyfranwyr rhanbarthol o'r farn eu bod wedi gwneud ymdrech wirioneddol i gydgrynhoi'r gweithgareddau a ariennir yn llai o brosiectau. Roedd hyn yn aml wedi golygu cyfuno prosiectau bach ar lefel awdurdod lleol yn un prosiect rhanbarthol at ddibenion adrodd y RIF.

5.3 Mae rhai rhanbarthau wrthi ar hyn o bryd yn adolygu aliniad prosiectau a ariennir gydag uchelgeisiau rhaglen y RIF, er mwyn ceisio sicrhau cydweddiad strategol gwell ar gyfer y cyfnod cyflawni sy'n weddill. Barnwyd mai anogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru oedd yn ysgogi'r newid hwn ond, mewn rhai achosion, roedd ysgogwyr eraill hefyd i gyfrif am yr adolygiadau, gan gynnwys yr angen i sicrhau gwell gwerth am arian, i dynnu prosiectau nad oeddent yn gweithio'n effeithiol yn ôl, ac yn sgil anawsterau recriwtio staff i brosiectau newydd.

5.4 Roedd cyfranwyr yn ymwybodol bod rhai o brosiectau'r RIF bellach yn dod i ddiwedd eu cam cyflymu, ac roedd sgyrsiau anodd yn cael eu cynnal am ddyfodol y prosiectau hyn. Roedd amodau gweithredu ariannol heriol yn golygu bod rhai prosiectau'n cael eu cwtogi oherwydd costau cynyddol.

### Trefniadau seilwaith ac adnoddau RIF rhanbarthol

5.5 Ystyriwyd bod y dyraniad cyllid o £750,000 y flwyddyn tuag at gostau staffio a seilwaith y RIF yn briodol, a chaiff ei ddefnyddio gan ranbarthau naill ai i gyflogi staff yn nhimau craidd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu tuag at gostau rheoli prosiectau ehangach ar draws y rhanbarth. Adroddwyd bod nifer y swyddi a gefnogir drwy'r cyllid seilwaith yn amrywio o ranbarth i ranbarth.

5.6 Dywedodd cyfranwyr rhanbarthol eu bod wedi defnyddio rhywfaint o fuddsoddiad seilwaith y RIF i lenwi bylchau sgiliau penodol a oedd yn bodoli'n flaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys penodi deiliaid swydd â sgiliau dadansoddol i gefnogi gwaith

dadansoddi data ac adrodd, a deiliaid swyddi sydd â sgiliau cyfathrebu i gefnogi gwaith hyrwyddo. Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd wedi defnyddio’r gronfa seilwaith i feithrin gallu ar gyfer gweithredu NYTH.

5.7 Dywedodd cyfranwyr rhanbarthol eu bod wedi gwneud ymdrech i ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill, megis y Rhwydwaith Canolfannau Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (RIC) a chyllid rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), mewn modd cydgysylltiedig i ategu adnoddau’r RIF. Er ei bod yn amlwg pa swyddi sy’n cael eu hariannu gan ba ffrwd ariannu, mae dull tîm cyfan yn aml yn cael ei fabwysiadu ar draws timau craidd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu blaenoriaethau. Er enghraifft, esboniodd un rhanbarth fod adnoddau a ariennir drwy raglen Cydlynu Arloesi Rhanbarthol yn cael eu defnyddio i helpu i gefnogi gwaith monitro a gwerthuso rhaglen y RIF. Roedd rhai o arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bryderus ynghylch y posibilrwydd y byddai cyllid Cydlynu Arloesi Rhanbarthol yn dod i ben, o ystyried ei fod yn cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru ar sail flynyddol. Nododd un o’r arweinwyr rhanbarthol hynny eu bod yn ‘poeni eu bod yn mynd i’w chanslo [y rhaglen Cydlynu Arloesi Rhanbarthol]’. Teimlwyd y byddai penderfyniad o’r fath yn cael effaith negyddol ar gapasiti tîm cyflawni craidd cyffredinol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac o ganlyniad unrhyw werth ychwanegol a gâi’r RIF o’r trefniadau presennol.

5.8 Un wers y sylwyd arni gan gyfranwyr rhanbarthol ar gyfer dulliau yn y dyfodol yw'r angen i'r buddsoddiad seilwaith gynyddu'n flynyddol i gyfrif am gynnydd chwyddiant.

**Y cynnydd ar draws rhanbarthau**

5.9 O ystyried bod y rhan fwyaf o brosiectau'r RIF yn bodoli cyn i'r cyllid rhaglen fod ar gael, roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ariannwyd yn gallu dechrau ar unwaith. Barnwyd bod y prosiectau hyn yn cyflawni’n dda ac fe’u gwelwyd gan y cyfranwyr rhanbarthol fel ‘busnes fel arfer’ gan eu bod wedi bod ar waith ers tro.

5.10 Dywedwyd bod prosiectau mwy newydd a gafodd eu sefydlu o dan y RIF wedi cymryd amser i fagu stêm, o ran penodi staff a chefnogi defnyddwyr gwasanaethau. Her gyflawni gyffredin a wynebwyd gan lawer o brosiectau oedd recriwtio staff, er bod canfyddiad bod hyn yn broblem lawer ehangach ar draws y

sector iechyd a gofal cymdeithasol ac nad oedd yn gyfyngedig i brosiectau RIF yn unig.

5.11 Roedd heriau allweddol eraill i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys nodi'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy'r RIF, yn anad dim oherwydd mai cyfran fach o'r cyllid cyffredinol yw cyllid y RIF, a symud prosiectau ymlaen tuag at fodel cyllid taprog 50:50, oherwydd y diffyg arian cyfatebol sydd ar gael.

## 6. Ymgysylltu â'r Cymunedau Ymarfer

**Diben y Cymunedau Ymarfer**

6.1 Disgrifiodd y cyfranwyr rôl a diben deublyg y Cymunedau Ymarfer. Yn gyntaf, darparu fforwm ar gyfer staff rhanbarthol sy'n gweithio ar brosiectau'r RIF i rannu dysgu a lledaenu arfer da, er bod y Cymunedau Ymarfer hefyd yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb, profiad ac arbenigedd perthnasol yn y maes. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynychai'r Cymunedau Ymarfer yn teimlo bod hyn yn cael ei wneud yn dda a'u bod yn annog dysgu ac yn hyrwyddo dysgu gweithredol:

> 'Mae'n swyddogaeth ymgysylltu dda ac yn seinfwrdd.' [Noddwr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer/Deiliad Contract]

6.2 Yn ail, ac yn y pen draw, mae'r Cymunedau Ymarfer yno i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu modelau gofal integredig ar gyfer pob un o'r chwe maes yn y canllawiau: 'Mecanwaith i ysgogi meddwl am y Modelau Gofal.' [Noddwr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer/Deiliad Contract]. Roedd rhai cyfranwyr rhanbarthol yn cwestiynu ai'r Cymunedau Ymarfer oedd y cyfrwng gorau i gyflawni'r ail ddiben hwn neu a ddylai'r cyfrifoldeb am ddatblygiad Model Gofal fod yn rhywle arall. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymwyd y byddai angen sefydlu gweithgorau arbenigol a fyddai'n cwrdd yn fwy dwys ac yn cynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gydag ymdeimlad ehangach o'r system iechyd a gofal cymdeithasol nag aelodaeth bresennol y Cymunedau Ymarfer. Yna, gallai Cymunedau Ymarfer weithredu fel fforymau y gellid cyflwyno Modelau Gofal iddynt ar gyfer sylwadau a mireinio neu er mwyn nodi elfennau o arfer da i'w cynnwys mewn Modelau Gofal.

6.3 Roedd trydedd rôl bwysig yn cael ei nodi'n gynyddol ar gyfer y Cymunedau Ymarfer. Maent wedi dod yn fecanwaith hollbwysig i gysylltu â rhaglenni a blaenoriaethau polisi cenedlaethol allweddol. Disgrifiodd cyfranwyr sut maent wedi helpu arweinwyr rhaglenni cenedlaethol i weld y cysylltiadau y mae angen eu

gwneud gyda modelau gofal integredig. Mae arweinwyr cenedlaethol hefyd yn gweld y Cymunedau Ymarfer fel ffynhonnell cyngor da ac fel lle i brofi syniadau, sydd yn ei dro yn eu hannog i ehangu eu meddwl ac i leihau dyblygu. Teimlai rhai fod angen i'r diweddariadau polisi a'r trafodaethau o fewn y Cymunedau Ymarfer fod yn uwch ar yr agenda ac y dylid rhoi mwy o amser i'w trafod.

**Strwythur ac aelodaeth**

6.4 Soniodd cyfranwyr sy'n mynychu neu'n gweithio gyda'r Cymunedau Ymarfer eu bod wedi'u hwyluso'n effeithiol ac yn gadarnhaol mewn ffordd sydd wedi'i harwain gan werthoedd, gyda diwylliant o fod yn agored ac ethos cryf o feithrin a grymuso. Maent yn cael eu gweld fel mannau diogel i drafod pethau, lle mae mynychwyr yn gwrando a lle mae lleisiau amgen yn cael eu derbyn a'u croesawu. Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr a fynychai'r Cymunedau Ymarfer yn aml fod y grwpiau wedi cael datblygu'n organig a bod y rhan fwyaf ohonynt yn magu momentwm.

6.5 Barnwyd bod yr agwedd mynediad agored at aelodaeth yn nodwedd gadarnhaol, ac mae lefelau presenoldeb yn dal i fod yn gryf. Mae rhai cyfranwyr yn credu bod gan y Cymunedau Ymarfer gydbwysedd da rhwng mynychwyr rheolaidd a mynychwyr tro cyntaf, a chymysgedd da o staff rheng flaen, haen ganol, ac arweinwyr polisi, a gwahanol weithwyr proffesiynol, lefelau a sectorau. Mae staff Llywodraeth Cymru a noddwyr cenedlaethol yn fynychwyr mwy rheolaidd ac yn gweld mwy o werth yn y Cymunedau Ymarfer.

6.6 Gwendid tybiedig mwyaf y Cymunedau Ymarfer yw nad yw staff cyflawni prosiectau RIF wedi cyfrannu cymaint ag y gobeithiwyd. Roedd rhai cyfranwyr rhanbarthol yn fwy beirniadol o'r Cymunedau Ymarfer, gan awgrymu bod eu cwmpas yn rhy eang, eu bod yn cynnwys gormod o gyflwyniadau, a'u bod yn para'n rhy hir. Ymhlith y rhai gafodd eu cyfweld ar draws y rhanbarthau, mae presenoldeb yn isel – nid oedd arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynychu'n ddiweddar, nid oeddent yn gwybod pwy oedd yn mynychu o'u rhanbarthau, ac roeddent yn cwestiynu gwerth eu mynychu gan eu bod yn cael eu hystyried yn ymylol ac yn feichus. Holodd rhai cyfranwyr rhanbarthol hefyd a oedd lle i leihau nifer y Cymunedau Ymarfer drwy eu huno.

> 'Es i unwaith neu ddwy i ddechrau, ac o'n i'n teimlo, dyw hyn ddim yn dweud dim byd wrtha i y mae angen i fi ei wybod. Dw i'n cael fy ngwahodd i bob un, ond

mae’n rhaid i fi ddweud y gwir, dydyn nhw ddim ar frig fy rhestr o flaenoriaethau’ [Arweinydd Rhanbarthol]

6.7 Y rhanbarthau hynny sydd heb arweinydd rhaglen Modelau Gofal sy’n ei chael hi’n fwyaf anodd dod o hyd i’r gynrychiolaeth gywir ar gyfer cyfarfodydd, tra bod y rhai sydd ag arweinydd rhaglen Modelau Gofal yn ei chael yn haws adnabod pwy ddylai fynychu.

6.8 Nid oedd cyfranwyr rhanbarthol yn teimlo bod proses ar waith i sicrhau bod rhanbarthau’n dysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn helpu i symud prosiectau o lefel leol i lefel ranbarthol i lefel genedlaethol. Roeddent yn teimlo nad oedd llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd bod y dysgu a rennir o fewn Cymunedau Ymarfer yn cael ei ddwyn yn ôl a'i ledaenu yn y rhanbarthau. Nid oeddent chwaith yn credu bod cynrychiolwyr o'r rhanbarthau yn ceisio barn cyn mynychu Cymunedau Ymarfer.

6.9 Roedd cyfranwyr o Lywodraeth Cymru a noddwyr cenedlaethol yn dadlau, os mai Cymunedau Ymarfer yw’r cyfrwng cywir i ddatblygu Modelau Gofal, y dylai’r aelodaeth gynnwys staff prosiect y RIF ac arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a bod y diffyg cynrychiolaeth lefel uwch gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd yn cyfyngu ar allu’r Cymunedau Ymarfer i ddylanwadu ar y modelau. Roedd y cyfranwyr hyn hefyd o’r farn ei bod yn hollbwysig rhoi mwy o bwyslais yn y Cymunedau Ymarfer ar yr heriau a’r gwersi a ddysgwyd gan bobl sy’n arwain prosiectau RIF yn benodol a’u bod yn cael cyfle i’w cyflwyno i gyfoedion ledled Cymru.

6.10 Roedd cyfranwyr rhanbarthol a’r noddwyr cenedlaethol hefyd yn teimlo nad oedd eglurder o ran sut roedd y dysgu’n cael ei ledaenu i gynulleidfa ehangach, os o gwbl, h.y., i’r holl ymarferwyr sy’n gweithredu yng nghylch gwaith Cymunedau Ymarfer ac nid dim ond y rhai sy’n cael eu hariannu gan y RIF.

# 7. Casgliadau

7.1 Mae'r bennod hon yn nodi ein casgliadau allweddol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd yn ystod y cam cysyniadu.

- Mae'r RIF yn **rhaglen uchelgeisiol a llawn bwriadau da** sydd â llawer o **elfennau dylunio cadarnhaol**. **Rhaglen ariannu** yw hi, nad yw'n gyfan gwbl ragnodol nac yn rhoi hyblygrwydd llwyr i'r rhai a ariennir. Mae'n gorwedd yn y **tir canol** sy'n golygu bod **cyfranwyr rhanbarthol yn gweld canllawiau'r RIF fel rhai amwys ac agored i'w dehongli**.

- Mae'r RIF yn gweithredu mewn **cyd-destun polisi cymhleth iawn sy'n esblygu**. Nid yw'n glir pa rôl a ddisgwylir gan y RIF mewn polisïau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg na beth fydd eu goblygiadau ar weithgareddau a ariennir.

- **Cyfran fach iawn yw'r RIF o'r tirlun ariannu cyffredinol** ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn aml cyfrannwr bach yw'r RIF at wasanaethau a phrosiectau mawr. Mae hyn yn effeithio ar **lefel y flaenoriaeth a roddir i'r buddsoddiad** ac yn ei gwneud yn **anodd asesu'r gwahaniaeth mae'n ei wneud**.

- Mae'r **amgylchedd cyllidol heriol** y mae'r RIF yn cael ei darparu oddi mewn iddo yn bygwth **tanseilio rhai o'i hegwyddorion dylunio sylfaenol**, yn enwedig o ran cymhwyso ariannu taprog.

- Mae ei **gweithrediad yn profi'n heriol**, yn anad dim oherwydd bod y rhaglen yn gofyn am drawsnewid sylweddol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r RIF yn dilyn ymlaen o raglenni ariannu blaenorol fel y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, felly prosiectau etifeddol a gwasanaethau statudol yw'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth a ariennir ganddi.

- Mae **diffyg eglurder ynghylch diben Modelau Gofal**, a'u rhesymeg sylfaenol. Ar hyn o bryd mae cyfranwyr rhanbarthol yn gweld Modelau Gofal fel rhywbeth sy'n atal gweithredu'r RIF wrth iddynt dorri ar draws ffordd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o weithio, sy'n canolbwyntio ar garfanau poblogaeth yn hytrach na modelau darparu gwasanaethau.

- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i raddau gwahanol ac yn amrywio o ran llwyddiant, wedi ceisio **ôl-ffitio'u blaenoriaethau a'u prosiectau rhanbarthol i'r Modelau Gofal**, ond mae Modelau Gofal wedi cael eu defnyddio'n bennaf at ddibenion gweinyddu ac adrodd yn hytrach nag i siapio a llywio'r ddarpariaeth.

- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi defnyddio **blwyddyn gyntaf y RIF i brofi aliniad prosiectau a ariennir** gydag amcanion ehangach y RIF, er nad oes llawer o dystiolaeth bod prosiectau sydd heb eu halinio'n cael eu tynnu'n ôl.

- Bernir bod **y pum galluogwr allweddol a'r pum grŵp poblogaeth â blaenoriaeth yn briodol**. Mae'r galluogwyr yn gonglfeini ar gyfer darparu gwasanaethau, ond mae'n heriol i'r rhanbarthau ddangos sut y maent yn mabwysiadu'r galluogwyr allweddol i gyflawni amcanion y RIF.

- Mae'r Cymunedau Ymarfer yn **rhannu dysgu ac yn gwneud cysylltiadau pwysig â rhaglenni cenedlaethol perthnasol**. Mae **diffyg cynrychiolaeth o ran prosiectau ac arweinwyr rhanbarthol y RIF** ac nid yw'n glir a ddylai Cymunedau Ymarfer gyflawni eu rôl o ran cyfrannu at ddatblygu dulliau gweithredu cenedlaethol a Modelau Gofal y cytunwyd arnynt, neu sut y gallent wneud hynny.

## Atodiad A: Offerynnau ymchwil

**Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Arweinwyr/Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

### Cyflwyniad

1. Soniwch am:
    - Eich rôl
    - Eich sefydliad
    - Eich rhan mewn unrhyw drafodaethau cynllunio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru am ddyluniad y RIF neu fframwaith canlyniadau'r RIF
      (holi am: ymwneud â drafftio a chyflwyno'r cynllun busnes; cymryd rhan mewn prosiectau RIF penodol, wedi cymryd rhan o’r blaen yn y Gronfa Gofal Integredig neu’r Gronfa Trawsnewid)

### Dyluniad y RIF

2. Beth yw eich barn am ddyluniad a phensaernïaeth gyffredinol y RIF?
    - I ba raddau mae'r RIF yn caniatáu ichi gyflawni blaenoriaethau allweddol yn eich rhanbarth a'r ardaloedd ar draws y rhanbarth?
    - Beth yw eich barn am ddyluniad y RIF o'i gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
        - Pwy (poblogaethau / sectorau) ydych chi'n credu sy’n elwa o’r dyluniad a'r bensaernïaeth, o gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
    - Sut ydych chi wedi trosi’r blaenoriaethau polisi allweddol cenedlaethol yn brosiectau neu’n wasanaethau ymarferol?
    - Sut mae'r RIF yn caniatáu ichi gyflawni blaenoriaethau allweddol?
    - Sut arall allech chi fod wedi mynd i'r afael â hyn? (h.y. dyluniad y gronfa)

3. Beth yw eich barn am chwe Model Gofal y RIF[16]?
    - Sut byddech chi'n disgrifio Model Gofal a'i ddiben?

[16] Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol; Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref; Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da; Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal; Gwasanaethau gartref o’r ysbyty; Atebion seiliedig ar lety.

- Sut byddech chi'n disgwyl i'r Modelau Gofal weithio?
- I ba raddau mae'r chwe Model Gofal yn gweithio?
    - Pam ydych chi'n credu bod cysyniad y chwe Model Gofal yn gweithio, neu pam nad yw'n gweithio?
    - Pryd maen nhw'n gweithio?
- Pa rai o'r Modelau Gofal yw'r blaenoriaethau mwyaf ar gyfer eich rhanbarth chi a pham?
- Beth yw eich barn am y defnydd o alluogwyr allweddol[17]? Pam ydych chi wedi dod i'r farn yma?
    - Sut ydych chi'n meddwl mae'r galluogwyr allweddol yn gweithio?
    - Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n gweithio, neu pam nad ydyn nhw'n gweithio?
- Beth yw eich barn am y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth[18]? Pam ydych chi wedi dod i'r farn yma?
    - Pwy sy'n elwa, neu ddim yn elwa, o'r chwe Model Gofal?
    - A oes unrhyw boblogaethau ar goll?
- Sut ydych chi wedi sicrhau
    - bod o leiaf 20% o ddyraniad y RIF yn eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei ddarparu drwy sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol?
    - bod isafswm cyffredinol o 5% o'r RIF yn cael ei fuddsoddi mewn cymorth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr di-dâl?
- Sut ydych chi wedi defnyddio'r tair cronfa genedlaethol wedi'u clustnodi? (Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, prosiectau Dementia sy'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia a gweithrediad y Safonau Gofal Dementia, a chyllid uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl/rhyddhau o'r ysbyty)

4. Beth oedd eich proses chi o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu'r Cynllun Strategol a'r Cynigion Buddsoddi Refeniw a gyflwynwyd gennych ar gyfer y RIF?
    - Pa gymorth gawsoch chi i drosi gofynion y RIF i'ch Cynllun Strategol a'ch Cynigion Buddsoddi Refeniw? Pwy wnaeth eich cefnogi chi?

[17] Cynllunio a chomisiynu integredig; technoleg a datrysiadau digidol; hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol; hybiau cymunedol integredig; datblygu ac integreiddio'r gweithlu.
[18] Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia; plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth; pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol; gofalwyr di-dâl; pobl ag anghenion llesiant iechyd meddwl ac emosiynol.

- Pa mor ddefnyddiol oedd y canllawiau i'ch cefnogi i ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer eich rhanbarth?
- Ydych chi wedi ystyried costau a manteision eich rhaglen integredig?
    - Sut wnaethoch chi hyn? Gyda phwy? Pa gefnogaeth gawsoch chi?

5. I ba raddau y mae'r chwe Model Gofal yn llywio ac yn gyrru eich Cynllun Strategol rhanbarthol?
    - Sut ydych chi'n gwneud hyn? Gyda phwy?
    - Ydy'r chwe Model Gofal wedi'u nodi'n glir yn eich Cynllun Strategol?
    - I ba raddau mae eich gweithgarwch ar draws y rhanbarth yn alinio ag un o'r chwe Model Gofal eisoes?
    - Sut mae gwaith yn eich rhanbarth yn llywio datblygiad unrhyw un o'r chwe Model Gofal?
    - Fyddech chi wedi cynnal y prosiectau a nodir yn eich Cynllun Strategol heb gyllid RIF? Os felly, sut fyddech chi wedi rhoi'r prosiectau hyn ar waith?

6. I ba raddau y bydd y gweithgareddau a ariennir gan eich Cynllun Strategol yn eich helpu i gyflawni amcanion ehangach y RIF? Holi a yw gweithgareddau a ariennir:
    - yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, a sut?
    - yn arloesol ac yn drawsnewidiol, a sut?
    - yn rhoi'r unigolyn a'i anghenion yng nghanol y gofal, ac yn annog unigolion i chwarae rhan yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau, a sut?
    - yn mabwysiadu'r cynnig rhagweithiol, o ran y cyfle i gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut?
    - yn debygol o arwain at fwy o integreiddio rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a sut?
    - yn debygol o arwain at newid system cynaliadwy yn y modd y caiff darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ei darparu ar draws y rhanbarth, a sut?

## Gweithrediad hyd yma [Arweinwyr RIF yn unig]

7. A oes unrhyw newidiadau wedi bod i'ch dull gweithredu ers cyflwyno'r Cynllun Strategol, a pham?
    - Beth yw'r newidiadau, a beth sy'n cyfrif amdanynt?

8. Pa drefniadau adnoddau a seilwaith sydd wedi'u rhoi ar waith yn eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni'r RIF?
    - Sut ydych chi wedi gwneud defnydd o'r cymorth seilwaith o hyd at £750k sydd ar gael tuag at gostau seilwaith y RIF? Pam wnaethoch chi ddefnyddio'r gefnogaeth yn y modd yna?
    - Sut mae'r trefniadau seilwaith rhanbarthol yn eich helpu:
        - i ymgymryd â gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu â gofalwyr, dinasyddion, y trydydd sector a darparwyr?
        - i integreiddio deallusrwydd busnes a rheoli perfformiad?
        - i hwyluso gwaith cyd-gynllunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau?

9. Pa gynnydd sydd wedi'i gyflawni yn eich rhanbarth chi hyd yma?
    - Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu pob Model Gofal ac ar gyfer pwy?
    - Pa brosiectau sydd ar waith?
        - Pam fod rhai prosiectau wedi dechrau o flaen rhai eraill?
        - Oedden nhw eisoes ar waith?
    - Oes yna unrhyw oedi hyd yma? Os oes, pam?

10. Sut mae eich rhanbarth wedi ymgysylltu â'r Cymunedau Ymarfer?
    - Pwy o'ch rhanbarth sy'n mynychu'r Cymunedau Ymarfer unigol fel arfer?
        - Pam mai nhw sy'n mynychu yn hytrach nag eraill?
        - Ai'r un bobl sy'n mynychu?
    - Sut mae unrhyw ymgysylltu â'r Gymuned Ymarfer yn bwydo'n ôl i waith y rhanbarth?
    - Sut mae'r Cymunedau Ymarfer yn bwydo i mewn i ddatblygiad y Modelau Gofal?

**Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Unigolion Allweddol yn Llywodraeth Cymru**

## Cyflwyniad

1. Soniwch am:
    - Eich rôl
    - Eich rhan mewn unrhyw drafodaethau cynllunio am ddyluniad y RIF neu fframwaith canlyniadau'r RIF
      (holi am: eu rhan mewn gwaith adolygu cynlluniau busnes; wedi cymryd rhan o'r blaen yn y Gronfa Gofal Integredig neu'r Gronfa Trawsnewid)

## Dyluniad y RIF

2. Beth yw eich barn am ddyluniad a phensaernïaeth gyffredinol y RIF?
    - I ba raddau mae'r RIF yn caniatáu i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflawni blaenoriaethau allweddol yn eu rhanbarth a'r ardaloedd ar draws y rhanbarth a sut?
    - Beth yw eich barn am ddyluniad y RIF o'i gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
        - Pwy (poblogaethau / sectorau) ydych chi'n credu sy'n elwa o'r dyluniad a'r bensaernïaeth, o gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
    - Sut mae'r RIF yn ymwneud â blaenoriaethau polisi cenedlaethol allweddol neu'n cyfrannu atyn nhw?
        - Sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi trosi'r blaenoriaethau polisi yma'n brosiectau neu'n wasanaethau ymarferol drwy'r RIF?
    - Sut arall allech chi fod wedi mynd i'r afael â hyn (h.y. dyluniad y gronfa)?

3. Beth yw eich barn am chwe Model Gofal y RIF[19]?
    - Sut byddech chi'n disgrifio model gofal a'i ddiben?
    - Sut byddech chi'n disgwyl i'r Modelau Gofal weithio?
    - I ba raddau mae'r chwe Model Gofal yn gweithio?

[19] Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol; Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref; Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da; Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal; Gwasanaethau gartref o'r ysbyty; Atebion seiliedig ar lety.

  - Pam ydych chi'n credu bod cysyniad y chwe Model Gofal yn gweithio, neu pam nad yw'n gweithio?
  - Pryd maen nhw'n gweithio?
- Pa rai o'r Modelau Gofal yw'r blaenoriaethau mwyaf i chi a pham?
- Beth yw eich barn am y defnydd o alluogwyr allweddol[20]?
  - Sut ydych chi'n meddwl mae'r galluogwyr allweddol yn gweithio?
  - Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n gweithio, neu pam nad ydyn nhw'n gweithio?
- Beth yw eich barn am y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth[21]?
  - I bwy ydych chi'n meddwl y bydd y Modelau Gofal yn gweithio, ac i bwy fyddan nhw ddim yn gweithio?
- Sut mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi sicrhau
  - bod o leiaf 20% o ddyraniad y RIF yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei ddarparu drwy sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol?
  - bod isafswm cyffredinol o 5% o'r RIF yn cael ei fuddsoddi mewn cymorth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr di-dâl?
- Sut mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi defnyddio'r tair cronfa genedlaethol wedi'u clustnodi? (Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, prosiectau Dementia sy'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia a gweithrediad y Safonau Gofal Dementia, a chyllid uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl/rhyddhau o'r ysbyty)

4. Beth yw eich barn am y broses a ddilynwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu eu Cynlluniau Strategol a'u Cynigion Buddsoddi Refeniw ar gyfer y RIF?
   - I ba raddau y gwnaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r canllawiau i ddatblygu eu Cynlluniau Strategol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
   - Ydych chi'n credu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi ystyried costau a manteision eu rhaglen integredig?
     - Sut gwnaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hyn? Pa gefnogaeth gawson nhw, a gan bwy?

[20] Cynllunio a chomisiynu integredig; technoleg a datrysiadau digidol; hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol; hybiau cymunedol integredig; datblygu ac integreiddio'r gweithlu.

[21] Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia; plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth; pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol; gofalwyr di-dâl; pobl ag anghenion llesiant iechyd meddwl ac emosiynol.

5. I ba raddau y mae’r chwe Model Gofal yn llywio ac yn gyrru’r Cynlluniau Strategol rhanbarthol yn eich barn chi?
    - Sut maen nhw'n gwneud hyn?
    - Ydy'r chwe Model Gofal wedi'u nodi'n glir mewn Cynlluniau Strategol?
    - I ba raddau mae gweithgarwch ar draws y rhanbarthau’n alinio’n eglur ag un o'r chwe Model Gofal?
    - Sut mae gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn llywio datblygiad unrhyw un o’r chwe Model Gofal?

6. I ba raddau y bydd y gweithgareddau a ariennir gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn helpu i gyflawni amcanion ehangach y RIF? Holi a yw gweithgareddau a ariennir:
    - yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, a sut?
    - yn arloesol ac yn drawsnewidiol, a sut?
    - yn rhoi’r unigolyn a’i anghenion yng nghanol y gofal, ac yn annog unigolion i chwarae rhan yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau, a sut?
    - yn mabwysiadu’r cynnig rhagweithiol, o ran y cyfle i gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut?
    - yn debygol o arwain at fwy o integreiddio rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a sut?
    - yn debygol o arwain at newid system cynaliadwy yn y modd y caiff darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ei darparu ar draws y rhanbarth, a sut?

## Gweithrediad hyd yma

7. Ydy’r ymagwedd at y RIF wedi newid o gwbl ers cyflwyno’r Cynlluniau Strategol i ddechrau?
    - Beth yw'r newidiadau, a beth sy'n cyfrif amdanynt?

8. I ba raddau mae’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi rhoi trefniadau adnoddau a seilwaith digonol ar waith i gyflawni’r RIF?
    - Sut maen nhw wedi defnyddio’r cymorth seilwaith o hyd at £750k sydd ar gael tuag at gostau seilwaith y RIF?

9. Pa gynnydd sydd wedi'i gyflawni hyd yma yn y rhanbarthau?

- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu pob Model Gofal ac ar gyfer pwy?

10. Beth yw eich barn ar ddatblygiad ac ymgysylltiad y Cymunedau Ymarfer hyd yma?
    - Pwy sy'n mynychu'r Cymunedau Ymarfer unigol?
        - Pam mai nhw sy'n mynychu yn hytrach nag eraill?
        - Ai'r un bobl sy'n mynychu?
    - Sut mae unrhyw ymgysylltu â'r Gymuned Ymarfer yn bwydo'n ôl i waith y rhanbarth?
    - Sut mae'r Cymunedau Ymarfer yn bwydo i mewn i ddatblygiad y Modelau Gofal?

**Canllaw Trafod: Cyfweliadau ag Unigolion Allweddol a Noddwyr Cenedlaethol Cymunedau Ymarfer y RIF**

## Cyflwyniad

1. Soniwch am:
    - Eich rôl
    - Eich rhan mewn unrhyw drafodaethau cynllunio am ddyluniad y RIF (holi am: ymwneud â blaenoriaethau polisi cenedlaethol neu fodelau gofal cenedlaethol eraill, gyda'r Gymuned Ymarfer; wedi cymryd rhan o'r blaen yn y Gronfa Gofal Integredig/y Gronfa Trawsnewid)

## Dyluniad y RIF

2. Beth yw eich barn am ddyluniad a phensaernïaeth gyffredinol y RIF?
    - Beth yw eich barn am ddyluniad y RIF o'i gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
        - Pwy (poblogaethau / sectorau) ydych chi'n credu sy'n elwa o'r dyluniad a'r bensaernïaeth, o gymharu â'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF)?
    - Sut mae'r RIF yn ymwneud â rhaglenni neu flaenoriaethau polisi cenedlaethol allweddol neu'n cyfrannu atyn nhw?
        - Sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi trosi'r blaenoriaethau polisi yma'n brosiectau neu'n wasanaethau ymarferol drwy'r RIF?
        - Sut mae'r RIF yn cyfrannu at raglenni cenedlaethol eraill neu'n alinio â nhw (holi am un perthnasol i'r cyfwelai)
    - Sut arall allech chi fod wedi mynd i'r afael â hyn (h.y. dyluniad y gronfa)?

3. Beth yw eich barn am chwe Model Gofal y RIF[22]?
    - Sut byddech chi'n disgrifio model gofal a'i ddiben?
    - Sut byddech chi'n disgwyl i'r Modelau Gofal weithio?
        - Pam ydych chi'n credu bod cysyniad y chwe Model Gofal yn gweithio, neu pam nad yw'n gweithio?

[22] Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol; Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref; Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da; Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal; Gwasanaethau gartref o'r ysbyty; Atebion seiliedig ar lety.

    - Pryd maen nhw'n gweithio?
- Pa rai o'r Modelau Gofal yw'r blaenoriaethau mwyaf i chi a pham?
- Beth yw eich barn am y defnydd o alluogwyr allweddol[23]?
    - Sut ydych chi'n meddwl mae'r galluogwyr allweddol yn gweithio?
    - Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n gweithio, neu pam nad ydyn nhw'n gweithio?
- Beth yw eich barn am y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth[24]?
    - I bwy ydych chi'n meddwl y bydd y Modelau Gofal yn gweithio, ac i bwy fyddan nhw ddim yn gweithio?

## Cymunedau Ymarfer

4. Beth yw eich barn am ddyluniad y Cymunedau Ymarfer? (awgrym: holi am rai sy'n berthnasol i'r cyfwelai)
    - Beth ydych chi'n disgwyl i'r Gymuned Ymarfer ei gyflawni? Beth yw eu diben?
    - I ba raddau mae'r pum Cymuned Ymarfer sy'n gysylltiedig â Modelau Gofal, yn ogystal â'r Gymuned Ymarfer drawsbynciol (gofal a alluogir gan dechnoleg), yn ofynnol ac yn briodol?
        - Pam y penderfynwyd ar y rhain?
    - Sut y dylai'r Cymunedau Ymarfer gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwreiddio'r Modelau Gofal?
    - Sut ydych chi'n disgwyl i'r Cymunedau Ymarfer weithio?
        - Pam ydych chi'n meddwl bod y Cymunedau Ymarfer yn gweithio, neu pam nad ydyn nhw'n gweithio?
        - Pryd maen nhw'n gweithio? (h.y. beth yw'r amodau sy'n galluogi'r Gymuned Ymarfer i weithio)
    - Sut y dylai unrhyw waith ymgysylltu â'r Gymuned Ymarfer:
        - rhannu'r dysgu ledled Cymru?
        - bwydo'n ôl i waith y rhanbarthau?

5. Beth yw eich barn ar ddatblygiad y Cymunedau Ymarfer hyd yma?
    - Ydyn nhw'n datblygu mewn ffordd fydd yn caniatáu iddyn nhw gyflawni eu diben?

---

[23] Cynllunio a chomisiynu integredig; technoleg a datrysiadau digidol; hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol; hybiau cymunedol integredig; datblygu ac integreiddio'r gweithlu.
[24] Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia; plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth; pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol; gofalwyr di-dâl; pobl ag anghenion llesiant iechyd meddwl ac emosiynol.

- Pwy sy'n mynychu’r Cymunedau Ymarfer unigol?
    - Pam mai nhw sy’n mynychu yn hytrach nag eraill?
    - Ydy'r bobl iawn yn mynychu?
    - I bwy mae'n gweithio, ac i bwy nad yw’n gweithio?
- Sut mae'r Cymunedau Ymarfer yn rhyngweithio â rhaglenni neu fodelau gofal cenedlaethol presennol ac yn eu cefnogi?
    - Pwy sy'n mynychu o'r sefydliadau noddi?
    - Sut maen nhw'n rhyngweithio â'r Gymuned Ymarfer a pham?
- Sut mae'r Cymunedau Ymarfer yn llywio ac yn cefnogi datblygiad Modelau Gofal unigol y RIF hyd yma?